**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 11EG GORFFENNAF 2017 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd N. Bastow, Cadeirydd.
Cynghorwyr Mrs G. Baker, B. Barton, D. Bradley, C. Brockley, Mrs M. Jones, C. Matthews, M. Tasker, S. Williams, M. Worth.

**SWYDDOG:** Mrs T. Earley, Clerc y Dref

**80/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd J. Pearson (Y Maer) a'r Cynghorydd G. Campbell.

**81/17 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**82/17 Ymwelydd:**

Croesawyd Craig Hughes o Ganolfan Cydweithredol Cymru gan y Cadeirydd er mwyn iddo roi cyflwyniad am raglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC). Eglurodd Craig mai rhaglen a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru oedd hon a anelwyd at y 15% o'r boblogaeth bresennol y tybier i fod yn 'ddigidol anghynwysedig'. Oherwydd y cyflwyniad cynyddol o wasanaethau ar sianelau ar-lein, fe hoffai Llywodraeth Cymru gweld gostyngiad yn y nifer hwn. Ceir mynediad rhad ac am ddim i raglen CDC. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd a mudiadau, asiantaethau a busnesau i gynorthwyo pobl i gael ar-lein, gan dargedu'r rhai dros 50, pobl gydag anableddau, y di-waith a phobl sy'n byw mewn cartrefi cymdeithasol yn arbennig. Nid yw'n gallu gweithio gydag unigolion. Mae felly yn anelu ei adnoddau i helpu mudiadau gwirfoddol, cymdeithasau tai ayb i hyfforddi staff y rheng flaen i ddangos i bobl sut i fynd ar-lein am y tro cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys creu cyfeiriad e-bost rhad ac am ddim, defnyddio apps a chyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar-lein. Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn arwain y ffordd yn hyn o beth yn lleol ac mae'n chwilio am faterion / rhwystrau o safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth. Cynigodd Craig i anfon gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaeth at y Clerc, i'w danfon ymlaen i'r Aelodau.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau / sylwadau yn ymwneud a: hyfforddiant y Co-op i bobl ieuanc; anawsterau wrth gwblhau ffurflenni am fudd daliadau; taliadau argraffu'r gwasanaeth llyfrgelloedd; prosesu a pharatoi'r cyflwyniad o gredyd cyffredinol; amserlen fer Llywodraeth Cymru am ymateb i'r ymgynghoriad ar ymestyn band llydan ar draws Cymru (8 diwrnod yn unig).

Diolchodd y Cadeirydd i Craig am ei anerchiad a gadawodd y cyfarfod.

**83/17 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30ain Mehefin 2017 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***

**84/17 <u>Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:</u>**

**(a) Cofnod 32/17 - TCC Promenâd Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc y wybodaeth ddiweddaraf gan Emma Dowell i'w ystyried, yn cadarnhau bod y camera yn gweithio erbyn hyn. Fe awgrymwyd y dylid paratoi datganiad i'r wasg i godi ymwybyddiaeth a gofyn i'r cyhoedd am adroddiadau am unrhyw ddigwyddiadau yn y cyffiniau.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc paratoi hysbysiad cyhoeddus i'w ddosbarthu i Gymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos (ROSTA) a'r wasg leol i godi ymwybyddiaeth am y camera newydd ac i geisio cefnogaeth y cyhoedd i anfon adroddiadau am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud a diogelwch ar y ffordd y gwelant at y Cyngor Tref.***

(**b) Cofnod 61/17(d) - Panel Ymgynghori ar Ardaloedd Cadwraeth):**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfod diweddar y Panel, ynghyd ag adroddiad ysgrifenedig byr gan y Cynghorydd A.. Khan a oedd yn bresennol

**(c) Cofnod 64/17 - Gardd y Dywysoges Diana:**

**i.** Fe nodwyd bod staff parciau CBSC wedi cynnal gwaith tacluso brys unwaith yn unig. (Bydd y Cyngor Tref yn talu am hyn).

**ii.** Cynghorwyd yr Aelodau gan y Clerc bod manylion am y cytundeb wedi cael eu hanfon at bedwar contractwr garddio lleol, ond mai un amcan bris yn unig a dderbyniwyd am y gwaith o gynnal a chadw'r ardd yn rheolaidd. Y pris a dderbyniwyd oedd £40 am waith brys ychwanegol ac yna £960 y flwyddyn yn barhaol (ymweliad dwywaith y mis yn ystod y gwanwyn / haf ac unwaith y mis yn ystod yr hydref / gaeaf). Ni chafwyd unrhyw ymateb gan y tri chontractwr arall er iddynt gael eu hatgoffa.

***Penderfynwyd argymell bod yr amcan bris gan y contractwr lleol yn cael ei dderbyn, gydag yswiriant a geirda priodol a bod y gyllideb flynyddol yn cael ei godi o £500 i £1,000.***

**85/17 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i gael ei ystyried:

**a.** Llochesi Bysus: Cyflwynwyd adroddiad diweddaraf Gethin George yn cadarnhau bod y gwaith cynnal a chadw wedi cael ei gwblhau ac yn rhoi crynodeb o'r hyn sy'n weddill yn y gyllideb. Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau ystyried penodi aelod i ymuno a Gethin a'r Clerc mewn cyfarfod sydd i'w gynnal ar 18fed Gorffennaf am 2pm er mwyn trafod unrhyw faterion eraill ac / neu geisiadau am lochesi newydd.

***Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd S. Williams ymuno a Gethin a'r Clerc yn y cyfarfod.***

**b** Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o ohebiaeth gan y Cynghorydd G. Campbell yn ymwneud â gwaith ym Mharc Rhos / y Pwll Ymdrochi.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth gan y Cynghorydd Campbell.***

**c.** Rhoddodd y Cynghorydd M. Worth adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Cydbwyllgor Rheoli Theatr Colwyn a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf. Fe nodwyd bod y Cynghorydd H. Fleet wedi cael ei benodi'n Is-Gadeirydd am 2017/18 ac mai'r Cynghorydd C. Hughes yw'r Cadeirydd a benodwyd gan GBSC. Mae'r Theatr wedi dechrau cynnal ffilmiau i ddioddefwyr dementia ac yn denu'r cynulleidfaoedd mwyaf yn y DU. Bydd y Cymghorydd Worth yn mynychu'r ffilm nesaf. Ar nodyn llai cadarnhaol, bydd y Theatr Genedlaethol yn rhoi tair wythnos o rybudd yn unig o'i pherfformiadau byw ac mi fydd hyn yn achosi problem i'w hysbysebu.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio copi o adroddiad y trosiad cyllidebol am 2016/17.***

**86/17 <u>Ysgol Hen Golwyn:</u>**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth am diffibriliad newydd ar safle'r Ysgol.

***Penderfynwyd helpu i hysbysebu hwn trwy wefan, weplyfr a thrydar y Cyngor.***

**87/17 <u>Gweithdy Rhandeiliaid Ysbyty Llandudno:</u>**

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth am weithdy sydd i'w gynnal ar 17eg Gorffennaf a chynigodd y Cynghorydd Mrs G. Baker i fynd ac adrodd yn ôl amdano.

**88/17 <u>Gohebiaeth Arall:</u>**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:
(a) Taflen Mehefin 2017 Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn
(b) Datganiad i'r wasg gan Gyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, dyddiedig 26 Mehefin 2017 parthed lobïo Ysgrifennydd Cymru am y 'llif rhydd' o Feddygon Teulu yng Nghymru.

**89/17 <u>Cynllunio</u>:**

**a.** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b.** ***Penderfynwyd nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC.***

**c.** Cyflwynodd y Clerc rhybudd o apêl parthed O/43346 am bolyn 12.5 m o uchder ar Ffordd Llanrwst, Bae Colwyn.

***Penderfynwyd derbyn y rhybudd o apêl a'i nodi***

**ch.** Rhoddodd y Cynghorydd Brockley adroddiad byr ar lafar am sesiwn hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru a gynhaliwyd ar 20fed Mehefin. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddod i gysylltiad mor fuan ag sy'n bosibl gyda datblygwyr (datblygiadau mawr).

***Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Brockley i drosglwyddo copi o daflen yr hyfforddiant i'r Clerc, er gwybodaeth.***

**d.** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig i benodi'r Cynghorydd Bob Barton i fod yn 'Gwarcheidwad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)''. Byddai'n rhoi cyngor i'r Pwyllgor wrth ystyried ceisiadau cynllunio am unrhyw wyriad o'r polisïau yn CDLl Conwy. Cafodd hwn ei gynnig a'i eilio gan Aelodau'r Pwyllgor oherwydd profiad helaeth y Cynghorydd Barton mewn materion cynllunio ar lefel cyngor sir a datganodd y Cynghorydd Barton ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith hwn.

***Penderfynwyd cadarnhau penodiad y Cynghorydd Barton i fod yn Warcheidwad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gyda'r amcan i gynghori aelodau'r Pwyllgor am unrhyw balisau perthnasol yn y CDLl wrth ystyried ceisiadau cynllunio.***

**90/17 Trwyddedau:**

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am nifer o geisiadau diweddar am drwyddedau ar gyfer ardal Bae Colwyn.

***Penderfynwyd derbyn a nodi manylion y ceisiadau am drwyddedau.***

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm

……………………… Cadeirydd

**A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 11TH JULY 2017, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr N Bastow, Chairman
Cllrs: G Baker; B Barton; D Bradley; C Brockley; Mrs M Jones; C Matthews;
M Tasker; S Williams; M Worth

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk

**80/17 Apologies for Absence:**

Apologies for absence were received from Cllrs: J Pearson (Mayor) and G Campbell.

**81/17 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**82/17 Visitor:**

The Chairman welcomed Craig Hughes from the Wales Co-operative Centre to give a presentation on the Digital Communities Wales programme. Craig explained that this is a Welsh Government funded programme aimed at the 15% of the population currently classed as 'digitally excluded'. Due to increasing delivery of services through online channels, the Welsh Government would like to see this figure reduce. The DCW programme is free and works alongside organisations, agencies and businesses to support people to get online, particularly targeting the over 50s, disabled, unemployed and people living in social housing. It does not have the capacity to work directly with individuals, so targets its resources at helping voluntary organisations, housing associations etc to train frontline staff to show people how to get online for the first time, including setting up a free e-mail address, using apps and social media and online safety. The library service of CCBC is leading on this locally and is looking at issues/barriers from a service user's perspective. Craig offered to forward additional information about the service to the Clerk, for forwarding on to members.

A brief question and answer session followed, with questions/comments about: Ceop training for young people; difficulties in completing benefits forms; library charges for printing; universal credit processing and preparation for roll-out; lack of time given by Welsh Government for consultation response on extending broadband across Wales (only 8 days);

The Chairman then thanked Craig for attending and he retired from the

meeting.

**83/17** **Minutes**:

***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 20th June 2017.***

**84/17** **Matters Arising from Previous Minutes:**

**a) Min. 32/17 – Rhos Promenade CCTV:**

The Clerk submitted, for consideration, an update from Emma Dowell confirming that the camera was now operational and suggesting a press release be prepared to raise awareness and seek reports from the public on any incidents in the vicinity.

***Resolved to request that the Clerk drafts a public notice for circulation to ROSTA and the local press to raise awareness about the camera and seek the public's support to report any road safety incidents they may witness to the town council.***

**b) Min. 61/17(d) – Conservation Area Advisory Panel:**

The Clerk submitted, for information, the minutes from the recent Panel meeting and a brief written report from Cllr A Khan, who had been in attendance.

**c) Min 64/17 – Princess Diana Garden:**

**i)** It was noted that CCBC parks staff have carried out a one-off urgent tidy (town council to be recharged for this).

**ii)** The Clerk advised members that contract details had been sent to four local gardening contractors, but only one quotation had been received for the routine maintenance of the garden, at a cost of £40 for some additional immediate works and then £960 per annum ongoing (twice monthly visits during the spring/summer and once monthly during autumn/winter). The other three contractors had been chased but there had been no response.

***Resolved to recommend that the quotation received from a local contractor with appropriate insurance and a reference be accepted and the annual budget be increased from £500 to £1,000.***

**85/17** **Conwy CBC:** The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

**a)** Bus Shelters: An update from Gethin George confirming the maintenance works to shelters had been completed and giving a summary of the remaining budget. The Clerk requested that members consider appointing

a member to attend a meeting with Gethin and the Clerk at 2pm on 18th July to discuss any further issues and/or requests for new shelters.

***Resolved that Cllr S Williams would attend the meeting with Gethin and the Clerk.***

**b)** The Clerk submitted, for information, copy correspondence from Cllr G Campbell relating to works at Rhos park / paddling pool site.
***Resolved to receive and note the information from Cllr Campbell.***

**c)** Cllr M Worth gave a verbal report on the meeting of the Theatr Colwyn Joint Management Committee, held on 6th July. It was noted that Cllr H Fleet had been appointed Vice-Chair for 2017/18 and that Cllr C Hughes is the CCBC appointed Chairman. The theatre has begun to have dementia friendly screenings and is getting the biggest audience of any venue in the UK. Cllr Worth will be attending the next screening. On a less positive note, the National Theatre only give three weeks notice of their live screenings, which makes it more difficult to publicise them.

***Resolved to ask the Clerk to write to request a copy of the budget outturn report for 2016/17.***

**86/17 <u>Ysgol Hen Golwyn:</u>**

The Clerk submitted, for information, correspondence about a new defibrillator at the school site.

***Resolved to help publicise this via the town council website, facebook and twitter sites.***

**87/17 <u>Llandudno Hospital Stakeholder Workshop:</u>**

The Clerk submitted correspondence about a workshop event on 17th July and Cllr G Baker offered to attend and report back.

**88/17 <u>Other Correspondence</u>:**

It was noted that the following items of correspondence are available on request from the Clerk:
(a) Llandudno and Colwyn Bay Tramway Society – newsletter June 2017
(b) North Wales Community Health Council press release 26 June 2017 re: lobbying Welsh Minister for ‘free flow’ of GPs to Wales.

**89/17 <u>Planning:</u>**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in***

***Schedule A attached.***

***b)*** ***Resolved to note the recent Planning Decisions issued by CCBC.***

***c)*** The Clerk submitted notice of an appeal decision in respect of 0/43346 for a 12.5m monopole on Llanrwst Road, Colwyn Bay.

***Resolved to receive and note the notice of appeal.***

***d)*** Cllr C Brockley gave a brief verbal report on the Planning Aid Wales training session, held on 20th June. The importance of engaging with developers at an early stage (for major developments) had been stressed.

***Resolved that Cllr Brockley will forward a copy of the handout to the Clerk, for information.***

***e)*** Members were asked to consider a proposal to appoint Cllr Bob Barton as 'LDP Champion', to advise the committee when it is considering planning applications on any deviation from policies in the Conwy LDP. This had been proposed and seconded by members of the Committee, due to Cllr Barton's past experience in planning matters at a county council level and Cllr Barton had indicated that he would be willing to take on this role.

***Resolved to confirm the appointment of Cllr Barton as the 'LDP Champion', whose purpose is to advise members of the Committee on any relevant policies in the LDP when it is considering planning applications.***

**90/17** **Licensing:**

The Clerk submitted notice of any recent licensing applications.

***Resolved to receive and note the recent applications relevant to this area.***

The meeting closed at 7.30 p.m.

……………………. Chairman